# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

PWYLLGOR APÊL YR EISTEDDFOD

By cyfarfod o'r pwyllgor cyllid lleol ar nos Fercher 16ed Chwfror ac mae yno drefniadau mentrus ar y gweill i godi arian: Mawrth 2il twmpath a Chawl yng nghwmni Triban ac mae tocynnau yn gwerthu yn dda. Mehefin 17eg Dawn Ysgubo ar fferm Trefyrug. Bydd yna Farathon Carnifal a ras hwylaid ac mae rhai o blant ifanc y cylch yn barod i roi noswaith o adloniant, - dyddiadau i'w trefnu yn y dyfodol.

CYNGOR HENOED TON

Trefnwyd mewn pwyllgor ar yr 16eg o Chwefror i gadw'r arferiad o roi wyau Pasg i rai anffodus yn Ysbyty Henoed yn Rhiwfelen. Derbyniwyd llythyr yn mynegi gwerthfawrogiad mawr am ein hymdrech adeg y Nadolig drwy law ysgrifenyddes y pwyllgor Mrs Lorraine Powell.

CAPEL Y TON

Ar Sul olaf Ionawr cawsom wasanath Miss K.O. Pritchard o'r Gilfach Goch yng Nghapel y Ton. Ry'm yn ddiolchgar iawn iddi am ei pharodrwydd i lanw bwlch fel bo angen, ac mae ei neges yn bwrpasol bob amser. Ar y Sul cyntaf o Chwefror cawsom gwmni y Parch Ieuan J. Owen, ein cyn weinidog, i wasanaethu yn y pulpud ag wrth fwrdd y cymun. Mae y Parch Ieuan Owen, yn byw yn Nhonteg. Hyfryd oedd cael ei gwmni ef a'i briod.

AINON

Ar ail Sul Chwefror cafodd Ainon yr anrhydedd o wasanaeth un o blant y Ton sef y Parchedig H.R. David o Gaerdydd. Mae Mr David wedi ymddeol o ofal eglwys bellach. Bu yn weinidog yn Betws Rhydaman, Treorci a Aberystwyth. Mae ganddo gyfran yn Ainon a Chapel y Ton. Roedd ei fam yn aelod yn Ainon a'i dad yn aelod yng Nghapel y Ton felly mae yn rhannu ei ddiddordeb yn y ddwy eglwys er mai gyda'r hen gorff bu yn weinidog. Mae'n hyfryd ei weld bob amser ag yn rhannu straeon gyda aelodau'r ddwy eglwys.

SALWCH

Mae Mrs Iris Richards un o ddiaconiaid Ainon wedi bod yn gaeth i'r tŷ am rai wythnosau wedi iddi eto gwympo a thorri asgwrn yn ei hysgwydd. Dymunwn iddi adferiad buan a chawn ei

# FFYNNON TÂF A GWAELOD

Gohebwyr Lleol:
E June Huws ac Angharad Jones.

NOSON HEN GALAN

Cynhaliwyd noson Hen Galan yn Neuadd y Pentref Gwaelod y Garth nos Sadwrn Ionawr 14eg. Paratowyd lluniaeth gan bwyllgor yr Urdd y pentref a bu Dawnswyr Caerdydd yn ein diddanu. Roedd yn noson ddifyr dros ben a chodwyd dros gan punt at yr achos.

DISGO'R YSGOL

Bu plant Ysgol Gwaelod y Garth yn dawnsio'n braf mewn disgo Sant Ffolant, nos Wener y 10fed o Chwefror. Roedd y plant wrth eu bodd, a'r trefnwyr hefyd, wrth iddynt gyfri'r elw o gan punt i'r Urdd.

Bydd pwyllgor nesaf yr Urdd yn cwrdd ar nos Lun 20fed Chwefror am 6.30 yn 3 Ivy Cottages Gwaelod y Garth. Mae croeso cynnes i unrhyw un hoffai ddod i helpu.

CYNGERDD DYDD GŴYL DDEWI

Ar nos Fercher 1af Fawrth bydd rhai o blant Ysgol Gwaelod y Garth ynghyd â rhai oedolion yn cymeryd rhan mewn cyngerdd yn neuadd y pentref. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael a bydd yr elw at yr Urdd. Am fwy o fanylion ffoniwch Mrs Marion Evans yn yr ysgol.

CAPEL Y TON

Mae gwaith paentio yn mynd yn ei flaen yng Nghapel y Ton. Mae newid mawr eisioes er nad yw'r gwaith wedi ei gwblhau. Mae pawb yn falch iawn ar y trawsnewid a diolch i Mr Ken Davies am oruchwylio'r gwaith ar ran yr Eglwys.

YSGOL GYMRAEG

Bu taith y Fari Lwyd gan blant yr ysgol yn llwyddiannus iawn, a chafwyd derbyniad a chroeso bendigedig gan bawb. Methwyd mynd â'r Fari ar adeg y Nadolig am fod y tywydd wedi troi yn wael ar y noson benodedig. Efallai fod hyn wedi bod yn fantais i gael y sylw gorau yn hytrach nag yng nghanol bwrlwm y Nadolig a manteisio ar ddistawrwydd mis Ionawr a bywhau tipyn ar yr ardal.

Mae gwaeledd wedi taro dau o blant yr ysgol. Dymunir gwellhad buan i Carys Gough sydd wedi bod yn sal ag i Dafydd Boyle sydd wedi bod dan driniaeth mewn ysbyty. Gobeithio eu gweld yn ôl

MARWOLAETH UN O'R CYMRY CYNHENID

Yn sydyn ar y pedwerydd ar bymtheg o fis Ionawr bu farw Grace Millward, Tâf Olwg, Ffynnon Taf. Roedd Mrs Millward yn 89 oed, ac wedi ei geni a'i magu yng Ngwaelod y Garth. Bu'n aelod ym Methlehem ar hyd ei hoes ac yn un o ffyddloniaid y Gymanfa. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n gofalu'n dyner iawn am ei chwaer Mrs Rosina Hibberd, sy'n 97 oed, ac sydd erbyn hyn yn byw mewn cartref i'r henoed ger Llantrisant. Bydd cof melys am Grace Millward.

BETHLEHEM

Ar y Sul cyntaf o chwefror derbyniwyd 12 aelod newydd i'r capel a dewiswyd 8 diacon newydd. Erbyn hyn mae dros 170 o aelod ym Methlehem ac mae'n dda gweld y galeri yn cael defnydd rheolaidd.

URDD (Unwaith eto)

Mae pwyllgor Apêl Ffynnon Taf a Nantgarw yn brysur yn paratoi gweithgareddau i godi'r £4000 ac ar nos Wener Chwwefror 24ain, cynhaliwyd "Tant ar Dant" yn Neuadd Ty Rhiw pan fu Gillian Green yn ein diddori ar y delyn.

NEWID AELWYD

Mae'n dda gweld ein tyddynod gweigion yn cael eu hatgyweirio gan Gymry lleol. Dyna sydd wedi digwydd yn warren Farm Trefforest pan symudodd Gordon a Dorothy Bunn yno i fyw. Mae'r ddau yn weithgar iawn yn yr ardal a buasai'n chwith hebddynt.

PENBLWYDD ARBENNIG

Roedd Bethlehem yn dathlu pedair blynedd o wasanaeth gan ei gweinidog Y Parchedig T.J. Davies y mis yma. Cyflwynwyd englynion iddo a baratowyd ar y cyd gan y dosbarth cynganeddu, a dyma flas i chi -

I T.J.

Gwywo pan ddêl y gaea' - yw y drefn,
Ond wir ef flodeua;
Ym mêr hwn deil miri'r ha',
O'n rhengoedd ef yw'r i'enga'.


R. MILES RICHARDS LL.B.
CYFREITHIWR

Main Road, Pentre'r Eglwys,
Pontypridd.Morgannwg Ganol.